# P. H. JONES a phwnc amserol

# YR AMSERAU a Rhyfel y Crimea

YN ÔL *Llenyddiaeth Fy Ngwlad* cafodd gwrthwynebiad yr *Amserau* i Ryfel Crimea effaith ddifrifol ar ei gylchrediad a syrthiodd yn fuan o 'oddeutu wyth mil' i 'lai na'r hanner'. Nid yw'r ffigurau hyn yn gywir: mae'r ystadegau swyddogol am stampiau treth yn awgrymu gwerthiant o dros 4,500 yr wythnos ar gyfartaledd yn 1854, gyda chodiad pellach i gyfartaledd o dros 4,800 yr wythnos cyn diddymu'r stamp ganol 1855.

Ond mae awdur *Llenyddiaeth Fy Ngwlad* yn llygad ei le pan bwysleisia amhoblogrwydd safbwynt yr *Amserau*. 'Roedd y rhyfel yn hynod o boblogaidd ym Mhrydain: yn wir, gellid dadlau mai rhagfarn y cyhoedd yn erbyn Rwsia a wthiodd lywodraeth Iarll Aberdeen o'i hanfodd i ryfel.

Cefnogwyd y rhyfel gan bron bob carfan wleidyddol, o'r Toriaid a ofnai'r cynnydd parhaol yng ngrym a thiriogaethau Rwsia i'r radicaliaid a gofiai wrthryfel y Pwyliaid yn 1831 ac ymyrraeth y Rwsiaid yng ngwrthryfel Hwngari yn 1849.

Cyfyngwyd gwrthwynebiad i'r rhyfel i nifer fechan o radicaliaid Ysgol Manceinion, gwŷr megis Cobden, a gredai fod gan wledydd hawl i amddiffyn eu hunain ond mai ffolineb a gwaeth oedd ymosod ar wledydd eraill, ac i gefnogwyr y Gymdeithas Heddwch a gredai na ellid cyfiawnhau rhyfel ar unrhyw gyfrif.

'Roedd y rhyfel yr un mor boblogaidd yng Nghymru. Fe'i cefnogwyd gan bron bob newyddiadur a chylchgrawn ac eithrio misolyn yr Annibynwyr (yn arbennig *Cronicl* yr heddychwr milwriaethus S.R.), yr *Amserau* a'r *Gwron*. Gellid deall gwrthwynebiad y *Cronicl* a'r *Gwron* — 'roedd eu golygyddion, S.R. a Chaledfryn, yn bleidwyr selog y Gymdeithas Heddwch.

Gellid disgwyl y byddai'r *Amserau*, a oedd wedi dadlau mor huawdl o blaid yr Hwngariaid, wedi croesawu'r cyfle i dalu'r pwyth yn ôl i Rwsia am 1849. Ond 'roedd y golygydd, Ieuan Gwyllt, a'r prif golofnydd Eleazer Roberts 'Meddyliwr' ill dau yn anghymeradwyo rhyfel fel dull anghristnogol o weithredu.

Bu cryn wrthdaro felly rhwng y ddau a John Lloyd, perchennog yr *Amserau*, a ofnai y byddai nofio yn erbyn y llif fel hyn yn lleihau gwerthiant ei newyddiadur.

* * * *

WEDI misoedd o baratoi ac o betruso, cyhoeddodd Prydain a Ffrainc ryfel yn erbyn Rwsia ddiwedd Mawrth 1854. Er mwyn ceisio bendith yr Hollalluog ar y fenter, penderfynodd y Llywodraeth y dylid cynnal dydd cyhoeddus o ympryd a gweddi ar y 26 Ebrill. Er nad oedd hyn wrth fodd llawer o anghydffurfwyr a phabyddion a anghymeradwyai'r syniad bod gan y wladwriaeth hawl i'w gorfodi mewn materion crefyddol, yn ôl pob hanes 'roedd yr achlysur yn un poblogaidd, gyda chynulleidfaoedd sylweddol mewn llawer o eglwysi a chapeli.

Gwrthwynebwyd y dydd ympryd gan yr *Amserau*. Er nad oedd Hiraethog yn cyfrannu iddo'n rheolaidd mwyach (ac er nad oedd yn heddychwr trwyadl), manteisiodd ar y cyfle i atgoffa'r Cymry bod y Rwsiaid yn gweddïo yr un mor daer i'r un Duw am fuddugoliaeth.

Daeth yr ymosodiad ffyrnicaf oddi wrth Meddyliwr: 'Y gorchwyl uniongyrchol y mae y wlad hon wedi gymeryd mewn llaw, ydyw lladd a dinystrio, llosgi a dyfetha, yspeilio cynifer o'u cydgreaduriaid sydd yn digwydd bod yn filwyr Rwsiaidd o'u bywydau ag a allent, hau trueni led-led cyfandir Ewrop . . . tywallt gwaed dynol yn afonydd, hau y tir a chnwd ac ymenyddion dynion yn meddu eneidiau anfarwol . . . Ac yr ydys yn meiddio nesu at Dduw i ofyn ar iddo ei fendithio. Ai Moloch neu Mars yw ein Duw ni?'

Parhaodd Meddyliwr i gondemnio'r rhyfel yn ystod hanner cyntaf 1854. Gallai'r *Amserau* fentro nofio yn erbyn y llif yn ei golofnau golygyddol gan iddo wneud darpariaeth ychwanegol ar yr un pryd er mwyn cyflwyno newyddion o faes y gad. Felly ychwanegwyd at ei faint ddechrau Ebrill. Cynhwyswyd tri map mawr o'r mannau lle y tybid y byddai brwydro: dilynwyd map o Dwrci a'r Môr Du a oedd yn ôl ymffrost yr *Amserau*, yn werth swllt ond a 'roddwyd' i ddarllenwyr am geiniog, gan fapiau o'r Baltig ac o'r Crimea.

Newyddbeth arall wrth fodd darllenwyr oedd cyhoeddi llythyrau oddi wrth Gymry yn y lluoedd arfog, gan ddechrau gyda 'Llythyr oddi wrth Gymro o'r Môr Du' (John Owen, ar fwrdd y *Leander*) ar 17 Mai 1854.

Erbyn canol haf, 'roedd yn rhaid cynnwys ambell i lais o blaid y rhyfel. Ar y 23 Awst cyhoeddwyd y llythyr cyntaf oddi wrth ysgrifennwr a alwai ei hun yn 'Preswylydd Bryniau Cribog Cymru' ('PBCC' o hyn allan!) a ymosodai'n fanwl ar ddadleuon Meddyliwr.

Canol Medi, yr wythnos y glaniodd byddinoedd y Cynghreiriaid yn y Crimea, rhoddwyd taw ar Meddyliwr am rai wythnosau. Diolchodd i'r Golygydd am roddi cyfle iddo 'ddyrchafu fy llais egwan': gwyddai mor amhoblogaidd oedd ei syniadau a honnai fod rhai o'r darllenwyr wedi 'gwneyd pob ymdrech i atal iddynt gael ymddangos'.

* * * *

CAFODD AIL gyfle i ymosod ar y rhyfel ddechrau Tachwedd 1853 ar ôl gwrhydri y 23fed gatrawd ym muddugoliaeth yr Alma ac ar ôl brwydr Balaclafa, ond cyn i hanesion am y gaeaf erchyll o flaen Sebastopol argyhoeddi'r cyhoedd mai bwnglerwyr a oedd yn gyfrifol am weinyddu'r fyddin. Ymhen wythnos, ailgychwynnodd PBCC ar ei orchwyl bleserus o ateb dadleuon Meddyliwr fesul cymal.

Gwyddom fod cryn dipyn o ddiddordeb ym mhlith y cyhoedd yn yr ornest: cawn Daniel Owen, er enghraifft, yn sôn yn ei hunangofiant fod ei gyd-deilwriaid yn siop Angel Jones yn dilyn y ddadl yn eiddgar.

Erbyn yr hydref 'roedd testun dadl newydd wedi dod i'r blaen, sef y 'Patriotic Fund', casgliad cenedlaethol er mwyn cynorthwyo teuluoedd y rhyfelwyr a laddwyd.

Bu casglu brwd yng Nghymru. Ceir colofnau hirfaith, er enghraifft, yn y *Carnarvon and Denbigh Herald* yn nodi'r symiau a gasglwyd mewn gwahanol fannau. 'Roedd hyd yn oed wrthwynebwyr y dydd ympryd, megis S.R., yn cefnogi'r Drysorfa Wladgarol: dadleuodd hwnnw yn y *Cronicl* ei bod yn cydweddu â'r egwyddor wirfoddol hollbwysig.

Ond condemniai'r *Amserau* y Drysorfa: 'roedd cyfrannu iddi yn gyfystyr â chefnogi'r rhyfel. Cynhwyswyd ambell i lythyr a awgrymai nad oedd y casgliad bob amser yn un gwirfoddol. Mynnodd llythyrwr o Dredegar, er enghraifft, fod 'cyfraniadau' wedi cael eu hatal gan y meistri gwaith yno o gyflogau'r gweithwyr.

* * * *

CYNDDEIRIOGWYD llawer iawn o bobl gan wrthwynebiad yr *Amserau* i'r Drysorfa. Mewn cyfarfod cyhoeddus ym Miwmares, 14 Tachwedd 1854, collodd A.S. Môn, Sir Richard Bulkeley, arno ei hun yn llwyr wrth ladd ar 'certain fanatics, misled by a culpable and degraded journalist' a oedd wedi rhwystro ricriwtio ym Môn ac Arfon trwy gylchredeg 'the most vile reports'.

Nid yw'n hollol sicr mai at yr *Amserau* y cyfeiriai — hawliai ambell i heddychwr arall megis S.R. y clod o fod yn 'degraded journalist' — ond mynnai'r *Amserau* yr anrhydedd, gan honni ymhellach ddechrau Ionawr 1855 fod Sir Richard wedi dwyn y newyddiadur i sylw'r Cyfrin Gyngor.

Brysiodd yr Hen Gorff i ddatgan nad oedd yn cefnogi gwrthwynebwyr y rhyfel. Yng nghymdeithasfa'r Drenewydd, 6-8 Rhagfyr 1854, cytunwyd yn unfrydol ar gyfres o benderfyniadau a fyddai wedi boddio John Elias. Mynegodd y cyntaf ymddiriedaeth 'yn noethineb ein llywodraethwyr yn nygiad ymlaen y rhyfel presennol', a chefnogodd yr ail y Drysorfa Wladgarol.

Condemniodd y trydydd bobl a oedd 'yn llefaru ac yn ysgrifenu yn annoeth mewn ffordd o feio ar ein llywiawdwyr a gwrthwynebu eu hamcanion gyda golwg ar amgylchiadau y rhyfel, ac anghefnogi y Fund grybwylledig' gan bwysleisio nad oedd cysylltiad rhwng yr Hen Gorff ac unrhyw newyddiadur.

Anelwyd y datganiad hwn at yr *Amserau*: 'roedd ei berchennog, ei olygydd, a Meddyliwr i gyd yn Fethodistiaid Calfinaidd. Adfywiwyd *morale* Ieuan Gwyllt gan anghymeradwyaeth yr Hen Gorff.

Ychydig cyn hyn, ysgrifennodd yn ddigalon at ei gyfaill Thomas Levi, 'Mae y rhyfel yma yn fy mlino i yn fawr iawn . . . a phe byddwn yn ymollwng i arllwys allan fy ngolygiadau a'm teimladau . . . yn ddiatal fel y maent yn berwi yn fy nghalon, yr wyf yn credu y byddai *holl* ddarllenwyr yr *Amserau* yn barod i fy alltudio tua St. Petersburg . . . mae Meddyliwr druan wedi siarad nes yw pawb yn ei hwtio, ac yn barod i'w osod i lawr fel dyn wedi colli ei synwyrau'.

Ond erbyn diwedd y mis gorfoleddai yn ymosodiadau Sir Richard a'r Hen Gorff: 'Wrth ganfod rhyw *exploits* fel hyn, mae yn anhawdd i ryw greadur egwan, eiddil, a dinod, sydd yn preswylio megys ei hunan mewn cell neillduedig, beidio meddwl ei fod yn rhywbeth wedi y cwbl'.

* * * *

CYN DIWEDD y flwyddyn ymosododd Talhaiarn yn gas ar Meddyliwr yn y *Carnarvon and Denbigh Herald*, gan honni iddo ysgrifennu 'yards of bosh in the potatoes and buttermilk style' ac awgrymu 'that if this witless simpleton who calls himself a "thinker" were to think more and to write less, he would confer a blessing upon himself and his countrymen too.'

*(I'w barhau)*